

No.

CABINET

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd, 2021.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd N. Moore (Cadeirydd); Cynghorydd L. Burnett (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr B.T. Gray, P.G. King, K.F. McCaffer, M.R. Wilkinson and E. Williams.

C725 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

C726 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Tachwedd, 2021 fel cofnod cywir.

C727 DATGANIADAU BUDDIANT –

Enw'r Cynghorydd

Y Cynghorydd M.R. Wilkinson

Natur y Buddiant

Roedd y buddiant yn ymwneud ag Eitem 13 ar yr Agenda – 'Cynigion Cyllideb Cychwynnol y CRT ar gyfer 2022/23 a Chyllideb Ddiwygiedig 2021/22'. Roedd gan y Cynghorydd Wilkinson fuddiant personol fel Tenant y Cyngor, fodd bynnag, roedd eithriad i'r rheolau rhagfarnol yn berthnasol a oedd yn golygu ei bod yn gallu aros yn y cyfarfod, trafod a phleidleisio ar y mater.

C728 ADRODDIAD ADOLYGIAD ANNIBYNNOL BIOMAS BARRI (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2021.

Esboniodd yr Arweinydd fod hwn yn adroddiad cynhwysfawr yn ymdrin â phob agwedd ac elfen yn rhan o'r adolygiad a gynhaliwyd gan adolygydd / bargyfreithiwr annibynnol a aeth i'r afael â nifer o gwestiynau yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu.

No.

Yn y cyfarfod hwnnw, argymhellwyd y dylid cyfeirio'r adroddiad yn ôl at y Cabinet i'w ystyried ac yn y pen draw ymlaen i'r Cyngor i'w drafod ymhellach.

Dywedodd yr Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cyfreithiol, Rheoleiddio a Chynllunio mai'r bwriad erioed oedd dod â'r adroddiad yn ôl i'r Cyngor i'r Aelodau ei ystyried ai drafod.

Yna

PENDERFYNWYD - cymeradwyo'r Adroddiad ar yr Adolygiad Annibynnol o Fiomas y Barri a'i gyflwyno i'r Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar 6 Rhagfyr, 2021 iddo ei ystyried.

Y rheswm dros y penderfyniad

Er tryloywder democrataidd a chan y credir y dylid trafod y mater hwn yng nghyfarfod y Cyngor.

C729 GORCHYMYN BWRDEISTREF SIROL BRO MORGANNWG (TREFNIADAU ETHOLIADOL) 2021 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 17 Tachwedd, 2021.

Dywedodd yr Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cyfreithiol, Rheoleiddio a Chynllunio fod hwn yn adroddiad cynhwysfawr y mae'r holl Aelodau Etholedig eisoes wedi cael cyfle i edrych arno ac a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn iddo ei ystyried a'i gadarnhau ymhellach er mwyn iddo ddod i rym o 5 Mai 2022 yn barod ar gyfer Etholiadau Lleol 2022.

Yna

PENDERFYNWYD –

- (1) Nodi Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (Trefniadau Etholiadol) 2021 ("y Gorchymyn") sydd wedi'i atodi yn Atodiad A yr adroddiad.
- (2) Nodi ffiniau'r wardiau etholiadol canlyniadol a chymeradwyo'r diwygiadau i'r Dosbarthau Pleidleisio fel y nodir yn Atodiad B yr adroddiad.
- (3) Nodi'r cyfeiriad at y Dosbarthau Etholiadol fel y nodir yn Atodiad C yn amodol ar ddileu'r cyfeiriad at y dosbarth etholiadol JGO gan mai camgymeriad teipograffyddol oedd hyn.
- (4) Cyfeirio'r adroddiad i'r Cyngor iddo ei ystyried ac er gwybodaeth i'r Pwyllgor Cyswllt â Chymunedau a phob Cyngor Tref a Chymuned ym Mro Morgannwg.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1-3) O ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(4) Er mwyn i'r Cyngor weld y Gorchymyn, ffiniau'r wardiau etholiadol cysylltiedig, a'r newidiadau cyfeirio i'r Dosbarthau Pleidleisio, ac er mwyn hysbysu'r Pwyllgor Cyswllt â Chymunedau a phob Cyngor Tref a Chymuned o'r un peth.

C730 LLEOEDD PLEIDLEISIO A GORSAFOEDD PLEIDLEISIO: ADOLYGIAD BACH (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad mewn perthynas ag adolygiad bach o newidiadau i orsafoedd a manau pleidleisio o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 17 Tachwedd 2021 gan yr Arweinydd. Roedd Craffu wedi cymeradwyo'r newidiadau i'r gorsafoedd pleidleisio ac wedi gofyn i'r Cabinet eu cymeradwyo.

Yna

PENDERFYNWYD –

(1) Cymeradwyo'r newidiadau arfaethedig i'r Mannau Pleidleisio a / neu'r Gorsafoedd Pleidleisio fel y'u nodir ym mharagraffau 2.1 – 2.17 yr adroddiad.

(2) Cyfeirio'r adroddiad at y Cyngor i'w ystyried gyda'r bwriad o gymeradwyo'r newidiadau arfaethedig ar unwaith ac i bob Cyngor Tref a Chymuned a'r Pwyllgor Cyswllt â Chymunedau er gwybodaeth yn amodol ar ddiwygio Atodiad 5 fel y bydd yn cyfeirio at Orsafoedd Pleidleisio A a B yn y Glenbrook Inn.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1 a 2) O ystyried swyddogaethau statudol y Cyngor dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983; a chraffu cyn y Cabinet ar y cynigion a geir yn yr adroddiad a fyddai'n helpu i wella profiad pleidleisio etholwyr ac i godi ymwybyddiaeth ac yn dilyn trafodaethau yn y cyfarfod ynghylch Glenbrook Inn.

C731 GRŴP CYNGHORI ARFORDIR TREFTADAETH MORGANNWG –

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Arfordir Treftadaeth Morgannwg a gynhaliwyd ar 17 Medi 2021 fel y'u nodwyd yn yr agenda.

Ychwanegodd y Dirprwy Arweinydd, a aeth i gyfarfod y grŵp, ei bod wedi bod yn hynod o ddefnyddiol gan ei bod wedi rhoi manylion am y gwaith helaeth a'r ystod eang o weithgareddau sy'n cael eu cynnal fel y gweithgareddau 'Haf o Hwyl' a gynhelir gan y Cyngor, yn enwedig drwy'r Tîm Cefn Gwlad ac Arfordir Treftadaeth Cafwyd diweddariad hefyd gan Swyddog Ecoleg y Cyngor ar y gwaith sy'n cael ei

No.

wneud dan y Bartneriaeth Natur. Nododd yr Arweinydd hefyd fod y Cynllun Gweithredu Adfer Natur newydd wedi'i drafod.

PENDERFYNWYD – nodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Arfordir Treftadaeth Morgannwg a gynhaliwyd ar 17 Medi 2021.

Y rheswm dros y penderfyniad

O nodi'r cofnodion

C732 CYDBWYLLGOR GWASANAETHAU RHEOLEIDDIO A RENNIR –

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Cydbwyllgor y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (GRhR) a gynhaliwyd ar 28 Medi 2021 fel y'u nodwyd yn yr agenda.

Roedd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cyfreithiol, Rheoleiddio a Chynllunio am roi clod i'r staff a gyflogir dan y GRhR wrth ddelio â mesurau Covid-19, canlyniadau cadarnhaol o'r adroddiad ar yr Archwiliad, a'u gwaith helaeth arall, o glefydau trosglwyddadwy i orfodi rheoliadau busnes, erlyniadau a chael eu defnyddio mewn cysylltiad â Thracio ac Orlhain. Ar hyn o bryd roedd gan y GRhR danwariant y gellid ei ddefnyddio i helpu i recriwtio mwy o staff ar gyfer y gwasanaeth hanfodol hwn sy'n ehangu pe bae hynny'n cael ei gymeradwyo.

PENDERFYNWYD - Nodi cofnodion cyfarfod Cyd-bwyllgor y GRhR a gynhaliwyd ar 28 Medi 2021.

Y rheswm dros y penderfyniad

O nodi'r cofnodion

C733 MONITRO REFENIW AR GYFER Y CYFNOD 1 EBRILL I 30 MEDI 2021 A CHYLLIDEB DDIWYGIEDIG 2021/22 (AG/BA) (CRAFFU - PERFFORMIAD CORFFORAETHOL AC ADNODDAU) –

Diben yr adroddiad oedd cael cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer y gyllideb refeniw ddiwygiedig ar gyfer 2021/22 ac i roi gwybod i'r Cabinet am y cynnydd sy'n gysylltiedig â gwariant refeniw ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2021.

Byddai'r sefyllfa refeniw ar gyfer 2021/22 yn parhau'n heriol i'r Cyngor yn weithredol ac yn ariannol oherwydd pandemig COVID-19. Roedd hyn yn effeithio ar y ddau oherwydd gwariant ychwanegol ond hefyd oherwydd incwm a gollwyd. Cafwyd cadarnhad gan Lywodraeth Cymru y byddai arian i ymdrin â rhai o'r materion ei dderbyn hyd at 31 Mawrth, 2022. Byddai'r arian y mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn ei gael ar gyfer gofal drwy'r Gronfa Caledi hefyd yn dechrau dod i ben yn ystod gweddill y flwyddyn ariannol.

Parhaodd y Cyngor i wneud hawliadau am wariant, incwm a gollwyd ac arian gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwariant sy'n gysylltiedig â COVID-19.

No.

Rhagwelwyd y byddai Dysgu a Sgiliau, y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Amgylchedd a Thai yn gorwario ac na fyddai'r arian i dalu am hynny'n dod o'u cronfeydd wrth gefn eu hunain..

Mae'r alldro rhagamcanol ar gyfer Polisi yn amrywiant ffafriol o £4m. Rhagwelir y bydd amrywiant ffafriol o £2m yn ymwneud â thaliadau cyfalaf ac mae amcangyfrifon presennol yn rhagweld y bydd alldro cyllideb y Dreth Gyngor â gwarged o £2m.

Roedd targed effeithlonrwydd o £500k wedi'i bennu ar gyfer y flwyddyn ac roedd gwasanaethau wrthi'n gweithio i fwrw eu targedau heb unrhyw dargedau effeithlonrwydd wedi'u pennu ar gyfer ysgolion. Fodd bynnag, rhagwelwyd ar hyn o bryd na ellir cyflawni arbedion yn llawn eleni a gallai fod diffyg o £170,000 yn erbyn y targed.

Y gred oedd y byddai arian grant cyfyngedig neu ddim arian grant o gwbl wrth symud ymlaen.

Cyfeiriodd yr Aelodau Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth, Gwasanaethau Tai ac Adeiladu a Gofal Cymdeithasol ac lechyd at y pwysau ariannol ac adnoddau a brofir yn eu portffolios fel prinder staff, costau uwch o ran deunyddiau, cyflogau a gofal a roddir. Fodd bynnag, roedd gwasanaethau wedi parhau i weithredu'n effeithiol, ac roedd mesurau'n cael eu cymryd i oresgyn problemau o'r fath, h.y. ymgyrch recriwtio i annog mwy o staff gofal cymdeithasol.

Ychwanegodd yr Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd fod posibilrwydd o hyd o gael grantiau ac arian ychwanegol y gellid eu rhoi yn ogystal â'r gallu i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn pan fo angen.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Gan nodi y byddai pob Pwyllgor Craffu yn derbyn adroddiad monitro yn ymwneud â'i briod faes, gwnaeth y Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo

PENDERFYNWYD –

- (1) nodi'r sefyllfa o ran Cyllideb Refeniw 2021/22 yr Awdurdod.
- (2) cymeradwyo'r gyllideb refeniw ddiwygiedig ar gyfer 2021/22 fel y nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad.
- (3) Cyfeirio'r adroddiad at y Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau, fel y Pwyllgor Craffu arweiniol, i'w ystyried.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) Rhoi gwybod i'r Cabinet am yr alldro refeniw a ragwelir ar gyfer 2021/22.
- (2) Ymgorffori newidiadau yng nghyllideb 2021/22.

No.

(3) Rhoi gwybod i'r Aelodau am y sefyllfa ariannol.

C734 MONITRO CYFALAF AR GYFER Y CYFNOD 1 EBRILL I 30 MEDI, 2021 (AG/BA) (CRAFFU – PERFFORMIAD CORFFORAETHOL AC ADNODDAU) –

Diben yr adroddiad oedd rhoi gwybod i'r Cabinet am y cynnydd ar Raglen Gyfalaf 2021/22 ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2021 ac i ofyn am newidiadau i'r Rhaglen Gyfalaf.

Rhoddodd yr adroddiad y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2021 ac fe'u nodwyd fesul cynllun fel y dangosir yn Atodiad 1 yr adroddiad.

Bu cynnydd yn y costau ar gyfer nifer o gynlluniau oherwydd cynnydd mewn costau offer a deunyddiau. Amlinellwyd hefyd grantiau Llywodraeth Cymru a roddir i ariannu mentrau fel y Pod Bwyd a'r Blynnyddoedd Cynnar, yn ogystal ag arian a dderbynnir ar gyfer cynlluniau Teithio Llesol a chynlluniau trafndiaeth lleol yn y Fro. Byddai effaith barhaus COVID-19 a Brexit ar y rhaglen hon yn parhau i gael ei monitro.

Nododd yr adroddiad y newidiadau y gofynnwyd amdanynt i Raglen Gyfalaf 2021/22 a'r blynnyddoedd i ddod.

Roedd nifer o gynlluniau newydd hefyd, gyda rhai ohonynt yn cael eu cynnal drwy Bwerau Brys.

Cyfeiriodd y Dirprwy Arweinydd at y defnydd o Bwerau Brys i helpu i weithredu cynlluniau, fel Pod Bwyd Penarth, a ddangosodd y gallai'r Cyngor weithredu cynlluniau allweddol neu gynlluniau sydd eu hangen ar frys yn gyflym a diolchodd i'r swyddogion am eu gwaith diflino ar gynlluniau o'r fath.

Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth at Grant y Gronfa Teithio Llesol a fyddai'n cyfrannu at y gwaith o ddelio â'r newid yn yr hinsawdd ac o leihau llygredd aer.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Gan nodi y byddai pob Pwyllgor Craffu yn derbyn adroddiad monitro yn ymwneud â'i briod faes, gwnaeth y Cabinet, ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a goblygiadau ynddo

PENDERFYNWYD -

(1) Nodi'r cynnydd a wnaed ar Raglen Gyfalaf 2021/22.

(2) Cyfeirio'r adroddiad at y Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau fel y Pwyllgor Craffu arweiniol.

- (3) Nodi'r defnydd o Awdurdod Dirprwyedig mewn perthynas â'r canlynol:
- Gwella Goleuadau Ysgol Gynradd Evenlode - Trosglwyddo £15k o'r gyllideb Adnewyddu Asedau Addysg Wrth Gefn i gyllideb 'Gwella Goleuadau Ysgol Gynradd Evenlode' yn Rhaglen Gyfalaf 2021/22.
 - Boeler Newydd yn Hen Neuadd y Bont-faen - Trosglwyddo £15.4k o'r gyllideb Adnewyddu Asedau Addysg Wrth Gefn i'r cynllun 'Boeler Newydd Hen Neuadd y Bont-faen' yn Rhaglen Gyfalaf 2021/22.
 - Dechrau'n Deg - System Gwresogi Canolfan Deulu - Trosglwyddo £11k o gyllideb Adnewyddu Asedau heb ei neilltuo'r Gwasanaethau Cymdeithasol i'r cynllun 'Dechrau'n Deg - System Gwresogi Canolfan Deulu'.
 - Cysgodfan Bysus Llandochau - Cynyddu Rhaglen Gyfalaf 2021/22 y Cyngor £10,917 gan ddefnyddio arian a106.
 - Pafiliwn Pier Penarth - Trosglwyddo £12.5k o gyllideb Adnewyddu Asedau'r Seilwaith Arfordirol i gyllideb cynllun pafiliwn Pier Penarth yn Rhaglen Gyfalaf 2021/22.
 - Gwella Tai Bach Cyhoeddus Ynys y Barri - Trosglwyddo £14k o gyllideb cynllun y Parciau i gynllun newydd o'r enw Gwella Tai Bach Cyhoeddus Ynys y Barri yn Rhaglen Gyfalaf 2021/22.
 - Plannu Coed mewn Mannau Agored Cyhoeddus - Cynyddu Rhaglen Gyfalaf 2021/22 £31,259 gan ddefnyddio arian S106.
 - BSC2 - Trosglwyddo £202,521 o gynllun Cronfa Datblygu Prosiect Adfywio'r Barri 2021/22 i gynllun BSC2 yn Rhaglen Gyfalaf 2021/22.
- (4) Nodi'r defnydd o Bwerau Brys mewn perthynas â'r canlynol:
- Grant Cyfalaf y Cynnig Gofal Plant - Cynyddu cyllideb y cynllun hwn £145,000 gan ddefnyddio arian grant gan Lywodraeth Cymru.
 - Goleuadau Newydd yn Neuadd Chwaraeon Tregatwg - Cynnwys y cynllun newydd hwn yn Rhaglen Gyfalaf 2021/22 gyda chyllideb o £11.5k i'w hariannu drwy gyfraniad o gyllideb refeniw'r gronfa Etifeddiaeth Lleihau Carbon.
 - Ysgol Gynradd Band B yn y Bont-faen - Cynyddu'r gyllideb £280k yn rhaglen gyfalaf 2022/23, gan ddefnyddio arian A106.
 - Canolfan Dysgu a Lles Band B - Cario £313k ymlaen o gyllideb wrth gefn Band B a'i ddyrannu i'r cynllun Canolfan Dysgu a Lles yn Rhaglen Gyfalaf 2022/23.
 - Ysgol Y Deri Band B - Cario £300k ymlaen o gyllideb wrth gefn Band B a'i ddyrannu i gynllun Ehangu Ysgol Y Deri yn Rhaglen Gyfalaf 2022/23.
 - Grant Dechrau'n Deg - Cynnwys dau gynllun newydd (Crèche Skomer Road £45k a Pili Pala Works £15k) yn Rhaglen Gyfalaf 2021/22 gan ddefnyddio arian grant gan Lywodraeth Cymru a throsglwyddo £40k o gynllun Caeadau Diogelwch Dechrau'n Deg i gynllun Crèche Skomer Road Dechrau'n Deg.
 - Gwella Tŷ Dyfan a Chartref Dementia - Trosglwyddo £20k o arian mewnol y cynllun Gwella Tŷ Dyfan a Chartref Dementia i gynllun newydd o'r enw 'Tŷ Dewi Sant - Ystafell Trin Gwallt ac Adnewyddu Swyddfa' yn Rhaglen Gyfalaf 2021/22.

No.

- Grant y Gronfa Teithio Llesol - Cynyddu Rhaglen Gyfalaf 2021/22 £790k gan ddefnyddio arian grant gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y cynlluniau a restrir ym mharagraff 2.19.
- Pod Bwyd Penarth - Cynnwys y cynllun hwn â chyllideb £26,365 yn rhaglen Gyfalaf 2021/22 gyda chyllideb o £177,320 i'w ariannu drwy grant gan Lywodraeth Cymru.
- To Canolfan Hamdden y Bont-faen - Trosglwyddo £17k o gyllideb y cynllun Gwaith Canolfannau Hamdden i gyllideb cynllun to Canolfan Hamdden y Bont-faen, yn Rhaglen Gyfalaf 2021/22.
- Rheoli Llifogydd Llan-faes - Cynyddu cyllideb y cynllun hwn yn rhaglen Gyfalaf 2021/22 £95,664 gan ddefnyddio arian grant gan Lywodraeth Cymru.
- Cronfa Drafnidiaeth Leol Cyfnewidfa Doc y Barri - Cynyddu Rhaglen Gyfalaf 2021/22 £327k gan ddefnyddio grant gan Gyngor Bwrdeistref Merthyr yn gweithredu fel y corff arweiniol ar gyfer dyrannu arian o'r Rhaglen Metro+.
- Grant Chwaraeon Cymru - Cynyddu cyllideb cynllun grant Chwaraeon Cymru yn Rhaglen Gyfalaf 2021/22 £44.9k gan ddefnyddio £41.9k o arian a106 a £3k gan Chwaraeon Cymru.

(5) Cymeradwyo'r newidiadau canlynol i Raglen Gyfalaf 2021/22 a'r blynyddoedd i ddod:

- Cynlluniau Band B - Ailbroffilio'r cynlluniau Band B fel y'u nodir ym mharagraff 2.10.
- Bws Mini Ysgol y Deri - Cynnwys cynllun newydd yn y rhaglen gyfalaf o'r enw 'Bws Mini Ysgol y Deri' gyda chyllideb o £26k gan ddefnyddio cyfraniad refeniw gan yr ysgol.
- Ailweirio Ysgol Gynradd y Stryd Fawr - Trosglwyddo £32k i'r cynllun hwn o gyllideb Wrth Gefn Adnewyddu Asedau Addysg yn Rhaglen Gyfalaf 2021/22.
- Gwaith Ymchwilio i Orsaf Sain Tathan - Tynnu'r cynllun hwn gyda chyllideb o £15k o raglen gyfalaf 2021/22.
- Uwchraddio safleoedd bysus - Trosglwyddo'r gyllideb £5k hon i'r Gronfa Drafnidiaeth Leol - Cynllun Gwella Safleoedd Bysus yn Rhaglen Gyfalaf 2021/22.
- Cronfa Adnewyddu Cerbydau - Cario £634k ymlaen i Raglen Gyfalaf 2022/23.
- Cynllun peilot 20mya Diogelwch ar y Ffyrdd Saint-y-brid - Cynnwys cyllideb £34k yn Rhaglen Gyfalaf 2021/22 gan ddefnyddio grant gan Lywodraeth Cymru.
- Gwaith Tirlithriad Marina Penarth - Cynnwys y cynllun newydd hwn yn Rhaglen Gyfalaf 2021/22 gan ddefnyddio cyfraniad o'r gyllideb refeniw Polisi.
- Ffenestri Newydd Canolfan Fenter y Fro - Newid enw'r cynllun hwn i Waith Cydymffurfio Canolfan Fenter y Fro.
- Rhaglen Waith Cosmeston - Trosglwyddo £120k yn Rhaglen Gyfalaf 2022/23 o gynllun Rhaglen Waith Cosmeston i gynllun newydd o'r enw Adnewyddu Ardal Chwarae Parc Porthceri a hefyd defnyddio

No.

£14k o Raglen Gyfalaf 2022/23 yn Rhaglen Gyfalaf 2021/22 a dyrannu hyn i gynllun Grant Y Pethau Pwysig - Porth Cosmeston.

- Llwybr Arfordir Cymru - Penarth i Larnog - Trosglwyddo'r gyllideb £49k i'r cynllun Grant Mynediad i'r Arfordir yn Rhaglen Gyfalaf 2021/22.
- Cronfa Prosiect Partneriaeth Adfywio'r Barri - Cario £332k o'r gyllideb hon ymlaen i Raglen Gyfalaf 2022/23.
- Depo Court Road - Cyllideb Seilwaith, Dichonoldeb ac Arolwg - Newid enw'r cynllun hwn i Adleoli Depo Court Road.
- Prosiect Gofod - llai o swyddfeydd - trosglwyddo'r gyllideb £11k hon i gyllideb cynllun Adnewyddu Asedau'r Holl Wasanaethau yn Rhaglen Gyfalaf 2021/22.
- Rhaglen Hwb - Gofynnir i drosglwyddo £30k i'r gyllideb hon o'r cynllun dyrannu TGCh yn Rhaglen Gyfalaf 2021/22.
- Y Fargen Ddinesig - Ailbroffilio gwariant y cynllun hwn fel y nodir ym mharagraff 2.39.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) Rhoi gwybod i'r Cabinet am gynnydd o ran y Rhaglen Gyfalaf.
- (2) Rhoi gwybod i Aelodau'r Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau o'r cynnydd o ran y Rhaglen Gyfalaf.
- (3) Rhoi gwybod i'r Cabinet am y defnydd o Awdurdod Dirprwyedig.
- (4) Rhoi gwybod i'r Cabinet am y defnydd o Bwerau Brys.
- (5) Galluogi cynlluniau i fynd rhagddynt yn y blynyddoedd ariannol presennol a rhai'r dyfodol.

C735 ADRODDIAD CANOL BLWYDDYN RHEOLI'R TRYSORLYS 2021/22 (AG/BA) (CRAFFU – PERFFORMIAD CORFFORAETHOL AC ADNODDAU) –

Amlinellodd yr Arweinydd yr adroddiad, a'i ddiben oedd rhoi adroddiad canol blwyddyn ar weithrediadau Rheoli Trysorlys yr Awdurdod ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2021 a 30 Medi 2021. Roedd yr holl weithgareddau yn unol â strategaeth gymeradwy'r Awdurdod ar waith Reoli'r Trysorlys.

Cyfeiriodd yr adroddiad at y dylanwadau allanol ar waith Reoli'r Trysorlys, fel COVID-19, pwysau ar brisiau ynni a thanwydd, materion gyda chadwyni cyflenwi, chwyddiant ac eraill ar lefel y DU ac ar lefel fyd-eang.

Yn unol â strategaeth fenthycy bresennol yr Awdurdod, mae'r amcangyfrif diwygiedig ar gyfer benthyciadau newydd sydd eu hangen i gefnogi'r rhaglen gyfalaf ar gyfer 2021/22 oedd £11.805M (£3.429M wedi'i gefnogi).

Roedd yn debygol y bydd y swm sy'n ofynnol yn awr yn cael ei fenthycy yn fewnol yn ystod 2021/22, er gyda phroffil ad-dalu BBGC mor sylweddol, a rhai symiau

No.

mawr a ragwelir ar gyfer benthyciadau'r CRT, bydd angen parhau i adolygu'r sefyllfa hon er mwyn helpu i reoli risg llog y Cyngor.

Buddsoddodd y Cyngor gyda'r Cyfleuster Adnau Rheoli Dyledion, Awdurdodau Lleol, Biliau'r Trysorlys, Cronfeydd y Farchnad Arian a Chyfrifon Mynediad Ar Unwaith Lloyds er mwyn sicrhau'r elw gorau.

Ar hyn o bryd roedd yr Awdurdod yn ymchwilio i'r posibilrwydd o agor cyfrif rhybudd gyda Santander Bank PLC. Roedd y cyfrif hwn yn elwa o enillion uwch ar yr amod bod y cyfnod rhybudd gofynnol wedi'i roi cyn tynnu arian.

Cynigiodd yr Awdurdod ymestyn cyfnod aeddfedrwydd benthyciadau i Awdurdodau Lleol eraill o 365 diwrnod i 2 flynedd. Uchafswm yr adnau fesul sefydliad fyddai £5m ac o ystyried yr amcanestyniadau wrth gefn, cynigiwyd y bydd yr uchafswm a fuddsoddir dros 364 diwrnod yn cael ei gyfyngu i gyfanswm o £10m. Er mwyn gwneud hyn gofynnwyd am gymeradwyaeth y Cabinet a'r Cyngor Llawn yn yr adroddiad hwn.

Wrth i'r byd ddod allan o'r pandemig, roedd yr adroddiad yn cynnwys adolygiad o economi'r DU ac economïau gwledydd blaenllaw eraill ynghyd â rhagolygon ar gyfer cyfraddau llog.

Rhaid i'r Awdurdod sicrhau y cydymffurfir â'r Cod Materion Ariannol, a oedd wedi'i ddatblygu a'i ysgrifennu gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA) yn god ymarfer proffesiynol. Er mwyn dangos bod yr Awdurdod wedi cyflawni'r amcanion hyn, nododd y Cod ddangosyddion ariannol y dylid eu gweithredu a'r ffactorau y mae'n rhaid eu hystyried. Cydymffurfiodd y Cyngor yn llawn â'r dangosyddion ariannol hyn yn ystod 6 mis cyntaf 2021/22.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth a'r Cyngor benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD –

- (1) Derbyn yr adroddiad canol blwyddyn ar waith Rheoli'r Trysorlys ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2021 a 30 Medi 2021
- (2) Cytuno ar y dangosyddion rheoli'r Trysorlys diweddaraf.
- (3) Cyfeirio'r adroddiad i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau i'w ystyried.
- (4) Nodi'r newidiadau i'r terfynau buddsoddi.
- (5) I'r cynnydd yn y cyfnod aeddfedrwydd mwyaf ar gyfer buddsoddiadau i Awdurdodau Lleol eraill i 2 flynedd gydag uchafswm buddsoddiad o £5M fesul sefydliad a dim mwy na £10M yn cael ei fuddsoddi y tu hwnt i 364 diwrnod gael ei gymeradwyo gan y Cabinet a'r Cyngor Llawn.

No.

(6) Cyfeirio'r adroddiad at y Cyngor Llawn i'w gymeradwyo.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) I gyflwyno'r adroddiad canol blwyddyn ar waith Rheoli'r Trysorlys fel y nodir yn angenrheidiol yng Nghod Ymarfer Rheoli Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus y CIPFA.
- (2) I gyflwyno diweddariad o'r dangosyddion Rheoli'r Trysorlys sydd wedi'u cynnwys yn y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys.
- (3) I gyflwyno'r adroddiad hwn i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau.
- (4) I sicrhau bod yr aelodau'n ymwybodol o arferion rheoli'r Trysorlys presennol.
- (5) I sicrhau bod yr aelodau'n ymwybodol o newidiadau i'r strategaeth Rheoli'r Trysorlys.
- (6) I gydymffurfio â'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys.

C736 CYNIGION CYLLIDEB REFENIW CYCHWYNNOL 2022/23 A CHYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2021/22 I 2024/25 (AG/BA) (CRAFFU – PERFFORMIAD CORFFORAETHOL AC ADNODDAU) –

Diben yr adroddiad oedd cael cymeradwyaeth y Cabinet i ddechrau ymgynghori ar gynigion cychwynnol ar gyfer y gyllideb refeniw ar gyfer 2022/23 a'i gymeradwyaeth ar y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2021/22 i 2024/25.

Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2021/22 i 2024/25 a oedd yn cysylltu proses gynllunio strategol y Cyngor â phroses y gyllideb ac yn sicrhau cysondeb rhyngddynt. Roedd yn fecanwaith a geisiodd sicrhau adnoddau a gwariant a ragwelwyd yn y dyfodol, nodi diffygion posibl a chynnig y fframwaith ariannol ar gyfer y 3 blynedd nesaf.

Parhaodd COVID-19 i effeithio ar y Cyngor yn weithredol ac yn ariannol. Derbyniwyd arian gan Lywodraeth Cymru i helpu i gefnogi nid yn unig y gwariant ychwanegol oherwydd y pandemig ond hefyd yr incwm a gollwyd; fodd bynnag, roedd y cymorth hwn wedi dechrau lleihau ac nid oedd disgwyl iddo barhau yn 2022/23. Mae ansicrwydd o hyd ac felly, mae'n anodd cynnig amcanestyniadau ar gyfer y flwyddyn i ddod a thu hwnt.

Nid oedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi setliad dros dro'r Cyngor eto. Fe'i disgwyliwyd eleni ar 21 Rhagfyr 2021 gyda'r setliad terfynol i'w gyhoeddi ar 1 Mawrth 2022. Er nad oedd y wybodaeth hollbwysig hon wedi dod i law, bu'n rhaid i'r broses o bennu'r gyllideb a'r broses ymgynghori ddechrau er mwyn bodloni terfynau amser statudol.

No.

Mae gofyn i'r Cyngor dan y statud i osod lefel y Dreth Gyngor ar gyfer 2022/23 erbyn 11 Mawrth 2022. Er mwyn cyflawni hyn rhaid creu cyllideb refeniw wedi ei mantoli a chytuno arni erbyn y dyddiad hwnnw.

Oherwydd yr ansicrwydd sylweddol a'r pwysau ariannol ar y llywodraeth, mae'r Cynllun wedi'i seilio ar bedwar senario gwahanol o ran arian gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y tair blynedd ariannol nesaf - setliad niwtral o ran arian parod, gostyngiad 1% bob blwyddyn ar gyfer cyfnod y Cynllun hwn, cynnydd 1% bob blwyddyn a senario lle mae'r setliad ar gyfer 2022/23 ar yr un lefel â setliad 2021/22 (4.42%).

O fewn yr amcangyfrif drafft, rhagdybiwyd y canlynol: nid oes unrhyw lwfans wedi'i wneud ar gyfer chwyddiant prisiau oherwydd bod cyllidebau adrannol fel arfer yn manteisio ar hyn; fodd bynnag, ers cwblhau'r adroddiad hwn, roedd cyfraddau chwyddiant wedi cynyddu, a byddai angen ailystyried y rhagdybiaeth hon cyn cwblhau'r gyllideb.

Roedd cost dyfarniadau cyflog staff wedi'i hariannu'n llawn; nid oedd y dyfarniadau cyflog ar gyfer y flwyddyn bresennol wedi'u cytuno eto, felly roedd rhagdybiaethau wedi'u cynnwys ar gyfer y rhain yn yr adroddiad. Hefyd, mae cynnydd mewn Yswiriant Gwladol wedi'i ystyried yn yr adroddiad. Byddai'r costau hyn yn dod i £4.497m. Cafodd yr holl bwysau costau nad ydynt yn ymwneud â chyflog gwerth cyfanswm o £22.467m eu hariannu'n llawn yn yr adroddiad ei hun. Ni ragwelwyd unrhyw arbedion ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod.

Roedd y senarios yn ymwneud â'r Dreth Gyngor sydd wedi'u modelu ar y gyfradd MPD ddiweddaraf a gofnodwyd, sef 3.2% bob blwyddyn (4.2% erbyn hyn), cynnydd 3.9% bob blwyddyn yn unol â'r cynnydd yn 2021/22 a chynnyddu'r lefel i gyfartaledd Cymru, sef 7.05% yn 2022/23 a chynnydd wedi hynny o 3.58% i gynnal y cyfartaledd, gan ragdybio'r un cynnydd â chyfartaledd Cymru ar gyfer 2021/22.

Dywedodd yr Arweinydd y byddai'r rhagdybiaethau uchod yn cael eu hadolygu a'u herio yn rhan o broses y gyllideb derfynol.

Cytunwyd i newid yr amserlen arfaethedig a chael cyfarfodydd ychwanegol ynghylch y gyllideb a chyhoeddiad hwyr y setliad, gydag adroddiad yn nodi cynigion cychwynnol ar gyfer y gyllideb wedi'u diweddarau wedi'u llywio gan y setliad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ar 14 Chwefror a'r Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau ar 17 Chwefror 2022. Yna, byddai cynigion terfynol ar gyfer y gyllideb yn cael eu hadrodd i'r Cabinet ar 28 Chwefror gyda chynigion ar gyfer cyllideb derfynol y Cabinet hwnnw yn cael eu hystyried gan y Cyngor mewn cyfarfod ar 7 Mawrth 2022 er mwyn pennu'r Dreth Gyngor erbyn 11 Mawrth 2022.

Roedd pwysau cost sylweddol hefyd, sef cyfanswm o £22.467m.

Esboniodd y Dirprwy Arweinydd ei bod yn dda bod yr heriau wedi'u nodi yn yr adroddiad, ac y byddai hyn yn gofyn am drafodaethau difrifol gydag Aelodau Etholedig eraill o fewn Craffu ac mewn mannau eraill ar sicrhau cyllideb wedi'i

No.

mantoli. Byddai cynnydd mewn chwyddiant a chostau tanwydd uwch yn effeithio ar wasanaethau'r Cyngor fel cerbydau rheoli gwastraff a chludo plant i'r ysgol neu fynd â phobl i ganolfannau dydd, ynghyd â thoriad i Gredyd Cynhwysol i drigolion y Fro a chynnydd mewn Yswiriant Gwladol. Gallai pwysau cost effeithio ar rai o'r bobl fwyaf agored i niwed, fel plant sy'n agored i niwed o fewn addysg, ond roedd angen cyflawni gweledigaeth y Cyngor o 'Gymunedau Cryf â Dyfodol Disglair' er gwaethaf y pwysau hyn.

Ychwanegodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth fod y Cyngor yn wynebu nifer o heriau hysbys ac anhysbys eto yn y dyfodol o ran cyllid, na fyddai'n hawdd eu rhagweld.

Edrychodd yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac lechyd ymlaen at drafodaeth adeiladol ar y mater hwn gyda Chynghorwyr a phwysleisiodd yr angen am arian parhaus gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Gofal Cymdeithasol gan na allai ei gyllideb fod mewn diffyg, roedd angen ei mantoli, yn wahanol i'r GIG, er mwyn osgoi rhoi mwy o faich ariannol ar drigolion lleol drwy'r Dreth Gyngor. Gwelwyd pwysau costau o'r fath hefyd mewn awdurdodau eraill.

Cafodd yr Arweinydd drafodaethau rheolaidd gyda Gweinidogion Llywodraeth Cymru mewn perthynas â phwysau cyllidebol, yn enwedig o ran gwasanaethau cymdeithasol, ac roedd gwasanaethau eraill fel rheoli gwastraff ond yn gallu cael ychydig o arian y Cyngor. Roedd grantiau amrywiol, ac ati a roddwyd gan Lywodraeth Cymru, yn aml yn rhy fyrdymor. Roedd angen mwy o gymorth hirdymor. Ar hyn o bryd, wynebodd y Cyngor un o'r senarios gwaethaf ynghylch pwysau costau ac roedd angen i Gynghorwyr o fewn Cyngor Bro Morgannwg ystyried a thrafod hyn yn ddifrifol.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD -

- (1) Cymeradwyo'r cynigion cychwynnol ar gyfer cyllideb refeniw 2022/23 i'r Pwyllgorau Craffu perthnasol ac ymgynghoreion eraill ymgynghori arnynt.
- (2) Trosglwyddo argymhellion Pwyllgorau Craffu i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau, fel y Pwyllgor Craffu arweiniol, er mwyn i'w barn gael ei hanfon at y Cabinet.
- (3) Ystyried a chymeradwyo cynnwys y Cynllun Ariannol Tymor Canolig drafft ar gyfer 2021/22 i 2024/25.
- (4) Cyfeirio'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig at y Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau i'w ystyried gydag unrhyw sylwadau wedi'u gwneud gan y Pwyllgor hwnnw'n cael eu hystyried gan y Cabinet yn rhan o'r cynigion terfynol ar gyfer cyllideb 2022/23.

No.

(5) Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau, ynghyd â'r Rheolwr Gyfarwyddwr a'r Pennaeth Cyllid / Swyddog Adran 151 i adolygu'r amserlen ar gyfer cwblhau a chymeradwyo'r cyllidebau terfynol ar gyfer 2022/23 ac i gytuno arni.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Er mwyn cael barn Pwyllgorau Craffu ac ymgylgoreion eraill.

(2) Er mwyn i'r Cabinet gael gwybod am argymhellion y Pwyllgorau Craffu cyn gwneud cynnig terfynol ar gyfer y gyllideb.

(3) I hwyluso'r broses o integreiddio gwaith cynllunio ariannol tymor canolig yn y broses gynllunio gorfforaethol a phroses y gyllideb.

(4) I ystyried sylwadau'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol

(5) I sicrhau bod penderfyniadau terfynol ynghylch y cyllidebau ar gyfer 2022/23 yn cael eu gwneud mewn modd amserol.

C737 CYNIGION CYLLIDEB CYCHWYNNOL Y CYFRIF REFENIW TAI (HRA) 2022/23 A'R GYLLIDEB DDIWYGIEDIG 2021/22 (AG/BA) (CRAFFU – PERFFORMIAD CORFFORAETHOL AC ADNODDAU) –

Diben yr adroddiad oedd cael cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer cyllideb ddiwygiedig CRT 2021/22 a'r cynigion cychwynnol ar gyfer cyllideb 2022/23, fel y gellir cyflwyno'r cynigion i'r Pwyllgor Craffu i ymgynghori arnynt.

Rhoddodd yr adroddiad y wybodaeth ddiweddaraf am Gyllideb ddiwygiedig y CRT ar gyfer 2021/22 gan nodi'r cynigion cychwynnol ar gyfer cyllideb 2022/23 y CRT.

Roedd angen i bob awdurdod tai lleol gadw CRT. Rhaid i awdurdodau lleol bennu cyllideb ar gyfer eu CRT yn flynyddol. Rhaid pennu'r gyllideb fel nad yw'r swm a ddelir yng nghronfa'r CRT ar ddiwedd y flwyddyn mewn diffyg. Yn ystod y flwyddyn, rhaid i awdurdodau lleol adolygu gwariant ac incwm eu CRT ac os oedd y cyfrif, ar sail y wybodaeth a oedd ar gael, mewn perygl o fod mewn diffyg, rhaid iddynt gymryd camau sy'n rhesymol ymarferol i atal y diffyg hwn.

Roedd y gyllideb ar gyfer 2021/22 wedi newid i alldro o amrywiant anffafriol o £11.085m; fodd bynnag, er gwaethaf hyn, nododd y swm hwn fod gan y Cyngor mewn gwirionedd £11.085m yn fwy o fewn ei gyllideb nag yr oedd yn meddwl y byddai ganddo ac felly'n adlewyrchu'r ffordd y cyfrifwyd yr amrywiant hwn.

Ar ddiwedd 2021/22, roedd lefel cronfa'r Cyfrif Tai ar lefel uwch nag a amcanestynwyd yn flaenorol ac felly byddai'r newid arfaethedig i'r gyllideb weithredol yn arwain at ostyngiad ym malans y gronfa hon i sicrhau ei bod yn cyd-fynd â'r lefel a nodir yn angenrheidiol yn y Cynllun Busnes Tai.

No.

Oherwydd yr uchod, cynigiwyd lleihau'r ddarpariaeth o ddyled drwg yn seiliedig ar ragweld ôl-ddyledion rhent hyd at 31 Mawrth 2022, bu gostyngiad yn y costau ariannu cyfalaf, ac roedd lefel y gwariant cyfalaf i'w ariannu o refeniw wedi cynyddu gan fod arian o gronfa'r CRT yn cael ei ddefnyddio i ariannu rhywfaint o wariant cyfalaf, gan leihau'r gofyniad i fenthycu er mwyn ariannu'r CRT. Oherwydd y newidiadau hyn £915k fyddai balans y CRT ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2021/22 a oedd yn unol â'r isafswm a nodir yn angenrheidiol yn y Cynllun Busnes.

Amlinellwyd y gyllideb gychwynnol ar gyfer 2022/23 yn yr adroddiad, yn amodol ar arweiniad gan Lywodraeth Cymru o ran gosod rhenti yn 2022/23.

Amcangyfrifwyd gwarged bach ar gyfer 2022/23 sef £8k.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) Cymeradwyo cyllideb ddiwygiedig y CRT ar gyfer 2021/22 fel y nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad, a'i chyfeirio at y Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel i'w hystyried er mwyn creu cyd-destun ar gyfer Penderfynu (2).

(2) Cymeradwyo'r cynnig cychwynnol ar gyfer CRT 2022/23 ei gymeradwyo ar gyfer ymgynghori a'i chyfeirio at y Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel.

(3) Trosglwyddo argymhellion y Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau, fel y Pwyllgor Craffu arweiniol, er mwyn i'w barn gael ei hanfon at y Cabinet.

(4) Y byddai'r cynnydd ar gyfer rhent a gwasanaethau eraill yn destun adroddiad i'r Cabinet yn y dyfodol cyn gynted ag y bydd y wybodaeth ar gael gan Lywodraeth Cymru.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) I hwyluso'r gwaith o fonitro Cyllideb ddiwygiedig y CRT.

(2) Er mwyn cael barn y Pwyllgor Craffu ar y cynigion ar gyfer Cyllideb 2022/23 y CRT.

(3) Er mwyn i'r Cabinet gael gwybod am sylwadau'r Pwyllgor Craffu cyn gwneud cynnig terfynol ar gyfer y gyllideb.

(4) Er mwyn bodloni'r dyddiad cau statudol i hysbysu tenantiaid am y taliadau newydd fel sy'n ofynnol gan Statud.

No.

C738 CYNIGION RHAGLEN GYFALAF CYCHWYNNOL 2022/23 I 2026/27 (AG/BA) (CRAFFU – PERFFORMIAD CORFFORAETHOL AC ADNODDAU) –

Diben yr adroddiad oedd cael cymeradwyaeth ar gyfer y cynigion cychwynnol ar gyfer y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2022/23 i 2026/27 fel y gellir eu cyflwyno i Bwyllgorau Craffu i ymgynghori arnynt.

Nid oedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r Arian Cyfalaf Cyffredinol Dros Dro ar gyfer 2022/23 hyd yma ond roedd disgwyl iddo gael ei gyhoeddi ar 21 Rhagfyr 2021 gyda'r setliad terfynol i'w gyhoeddi ar 1 Mawrth 2022.

Felly, roedd lefel yr arian cyfalaf a gynhwyswyd yn yr adroddiad hwn wedi rhagdybio y byddai'r Cyngor yn cael yr un swm o Arian Cyfalaf Cyffredinol yn 2022/23 ag yn 2021/22 ac yna bydd yn parhau'n gyson am weddill cyfnod y rhaglen hon.

Roedd rhagdybiaethau hefyd wedi'u gwneud ar y Lwfans Atgyweiriadau Mawr (LAM), nad oedd wedi'i gyhoeddi eto gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2022/23, y byddai'r grant yn parhau ar yr un lefel ag yn y flwyddyn bresennol, sef £2.770m yn 2021/22 a thrwy gydol cyfnod y Rhaglen Gyfalaf.

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, gofynnwyd i'r holl wasanaethau nodi cynlluniau newydd a chyflwyno'r ceisiadau cyfalaf newydd hyn, a adolygwyd yn briodol. Cyfanswm gwerth y ceisiadau cyfalaf a dderbyniwyd oedd swm gros o £16.583m yn 2022/23 a £30.791m dros y 5 mlynedd. Oherwydd nad yw'r setliad ar gyfer 2022/23 wedi'i gadarnhau eto, cynigiwyd, ar hyn o bryd, oherwydd yr ansicrwydd yn lefel yr arian a geir, na fydd unrhyw gynlluniau'n cael eu cymeradwyo i'w cynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf ac y bydd asesiad pellach yn cael ei gynnal gan Weithgor y Gyllideb pan fydd lefel yr arian yn hysbys ac ar ôl i ymgynghoriad gael ei gynnal.

Cyfeiriodd yr Arweinydd hefyd at yr arian ar gyfer Rhaglen Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif a'r Rhaglen Gwella Tai, a nodir hefyd yn yr adroddiad.

Pwysleisiodd y Dirprwy lwyddiannau Ysgolion yr 21ain Ganrif, fel 3 ysgol uwchradd a 2 ysgol gynradd yn cael eu cwblhau yn rhan o'r rhaglen a'r manteision ehangach i'r gymuned leol h.y. creu 1,100 o swyddi lleol dros y ddwy flynedd ddiwethaf a 50% o'r gwariant yn cael ei gaffael o fewn y gymuned leol. Fodd bynnag, roedd heriau o'n blaenau, fel y cynnydd enfawr yng nghost deunyddiau adeiladu.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

No.

PENDERFYNWYD -

- (1) Cymeradwyo'r cynigion cychwynnol ar gyfer y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2022/23 i 2026/27 i ymgynghori arnynt â'r Pwyllgorau Craffu perthnasol.
- (2) Trosglwyddo unrhyw argymhellion Pwyllgorau Craffu i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau, fel y Pwyllgor Craffu arweiniol, er mwyn i'w barn gael ei hanfon at y Cabinet.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) Er mwyn cael barn Pwyllgorau Craffu.
- (2) Er mwyn i'r Cabinet gael gwybod am sylwadau'r Pwyllgorau Craffu cyn gwneud cynnig terfynol ar gyfer Rhaglen Gyfalaf 2022/23.

C739 CYNLLUN GOSTYNGIAD TRETH GYNGOR (AG/BA) (CRAFFU – PERFFORMIAD CORFFORAETHOL AC ADNODDAU) –

Diben yr adroddiad oedd cadarnhau ail-fabwysiadu Cynllun Cenedlaethol Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar gyfer 2022/2023 yn seiliedig ar reoliadau ac ailgadarnhau disgresiynau'r Cyngor.

Nododd yr adroddiad y disgresiynau cyfyngedig sydd ar gael i'r Cyngor i'w ystyried wrth ail-fabwysiadu Cynllun Cenedlaethol Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar gyfer 2022/2023.

Cynigiodd yr adroddiad y dylid argymhell i'r Cyngor Llawn ail-fabwysiadu Cynllun Cenedlaethol Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar gyfer 2022/2023 ynghyd â'r disgresiwn cyfyngedig sydd ar gael i'r Cyngor.

Roedd gan awdurdodau lleol Cymru tan 31 Ionawr bob blwyddyn i fabwysiadu cynllun sy'n arfer unrhyw un o'r disgresiynau a ganiateir dan y Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig. Roedd hyn yn gofyn am benderfyniad gan y Cyngor llawn. Pe bai'r awdurdodau'n methu â mabwysiadu Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor erbyn y dyddiad hwnnw, byddai'r cynllun diofyn yn berthnasol.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth a'r Cyngor benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD -

- (1) Argymhell i'r Cyngor Llawn y dylid mabwysiadu Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) OS 2013/3029 ("y Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig") a Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a Chynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygiad) 2014 OS 2014/66.

No.

(2) Adlewyrchu unrhyw ddiwygiadau i Reoliadau a wneir gan Lywodraeth Cymru yn y cynllun.

(3) Mabwysiadu'r cynllun cenedlaethol gyda'r disgresiynau canlynol: -

- Y dylai'r Cyngor barhau i ganiatáu Taliadau Estynedig hyd at uchafswm o 4 wythnos.
- Y dylai'r Cyngor barhau i ddiystyru pensiynau Gweddwon Rhyfel ac Anabledd Rhyfel wrth asesu incwm ar gyfer Gostyngiad y Dreth Gyngor.
- Y dylai'r Cyngor barhau i ganiatáu Gostyngiadau wedi'u Ôl-ddyddio am gyfnod hyd at 26 wythnos.

(4) Cymeradwyo'r defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys a nodir yn Adran 14:14 o Gyfansoddiad y Cyngor, er mwyn galluogi'r Cyngor i gymeradwyo Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor erbyn 31 Ionawr, 2022 ac i'r Cynllun fod ar waith i'w weithredu o 1 Ebrill, 2022.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1-4) I alluogi'r Cyngor i gymeradwyo Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor erbyn 31 Ionawr, 2022 ac i'r Cynllun fod ar waith i'w weithredu o 1 Ebrill, 2022.

C740 ANHEDDAU GWAG Y DRETH GYNGOR: 2022-2023 (AG/BA) (CRAFFU – PERFFORMIAD CORFFORAETHOL AC ADNODDAU) –

Ceisiodd yr adroddiad gymeradwyaeth i bolisi gael ei fabwysiadu ar gyfer y Dreth Gyngor ar anheddau gwag ar gyfer 2022-2023.

Cynigiodd yr adroddiad fod y Cabinet yn ailgadarnhau ei benderfyniad blaenorol i beidio â rhoi unrhyw ostyngiad yn y dreth gyngor ar gyfer eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi wedi'u dodrefnu (ar gyfer dosbarthiadau A, B ac C) ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD - ailgadarnhau'r penderfyniad blaenorol o ran peidio â chaniatáu unrhyw ostyngiad yn 2022/23 mewn perthynas ag anheddau gwag fel y'u diffinnir yn nosbarthiadau A, B ac C Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) 1998, fel y'u diwygiwyd.

Y rheswm dros y penderfyniad

Mae angen i'r Cyngor bennu ei bolisi ar ostyngiadau mewn perthynas ag anheddau gwag fel y'u diffinnir yn nosbarthiadau A, B ac C Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) 1998 bob blwyddyn.

C741 PRECEPT DYDDIADAU TALIAD 2022-2023 (AG/BA) (CRAFFU – PERFFORMIAD CORFFORAETHOL AC ADNODDAU) –

Ceisiodd yr adroddiad gymeradwyaeth i dalu prae-septau ar gyfer 2022-2023 i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru a'r Cynghorau Tref a Chymuned yn ardal Bro Morgannwg.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD -

- (1) Talu'r taliad sy'n ddyledus i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru mewn 12 rhandaliad cyfartal ar ddiwrnod gwaith olaf pob mis.
- (2) Talu'r taliad sy'n ddyledus i Gynghorau Tref a Chymuned mewn 3 rhandaliad cyfartal ar ddiwrnodau gwaith olaf mis Ebrill, mis Awst a mis Rhagfyr 2022.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1 a 2) Penderfynir ar y dyddiadau er mwyn gwneud y gorau o lif arian y Cyngor yn unol â'r rheoliadau.

C742 CYNLLUN CYFLENWI BLYNYDDOL CYNGOR BRO MORGANNWG 2022-23 (AG/BA) (CRAFFU – I GYD) –

Diben yr adroddiad oedd ceisio cymeradwyaeth ar gyfer Cynllun Cyflawni Blynyddol drafft 2022-23 at ddibenion ymgynghori.

Nododd yr adroddiad sut y datblygwyd y Cynllun Cyflawni Blynyddol drafft, yr ymgynghoriad arfaethedig a'r amserlen ar gyfer y Cynllun.

Roedd y Cynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer 2022-23 yn cyd-fynd â phedwar Amcan Lles y Cyngor. Nododd y Cynllun y gweithgareddau a fyddai'n cael eu cynnal yn 2022-23 i gyflawni'r amcanion hynny. Byddai'r ymrwymïadau yn y Cynllun Cyflawni Blynyddol yn cael eu hadlewyrchu mewn Cynlluniau Gwasanaeth Blynyddol ynghyd â thargedau gwella gwasanaethau a fydd yn manylu ar sut y byddai gwahanol wasanaethau'r Cyngor yn cyfrannu at gyflawni'r pedwar Amcan Lles.

Trwy gyhoeddi'r Amcanion Lles ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, roedd modd cyflawni rhwymedigaethau statudol dan ddyletswyddau perfformiad Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac roedd y ddau ohonynt yn gosod dyletswyddau penodol ar y Cyngor mewn perthynas â phennu amcanion ac adrodd. Dan Ddeddf Llesiant

No.

Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), roedd angen i'r Cyngor gyhoeddi ei Amcanion Lles erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn ac i adolygu'r rheiny'n gyson.

Byddai Amcanion Lles y Cynllun Corfforaethol a'r ymrwymadau cysylltiedig ar gyfer 2022/2023 fel y'u nodir yn y Cynllun Cyflawni Blynyddol drafft yn cael eu hadlewyrchu yn y Cynlluniau Gwasanaeth ar gyfer 2022-2023. Roedd gwaith wedi dechrau i ddatblygu'r cynlluniau gwasanaeth a fyddai'n cael eu cyflwyno i'r Pwyllgorau Craffu perthnasol yn y Flwyddyn Newydd ynghyd â thargedau arfaethedig i wella gwasanaethau ar gyfer 2022-23.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD -

- (1) Cymeradwyo'r Cynllun Cyflawni Blynyddol drafft (Atodiad A) fel sail ar gyfer ymgynghori yn unol â'r hyn a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn.
- (2) Cymeradwyo'r dull ymgynghori a'r amserlen fel y'u nodir yn yr adroddiad.
- (3) Nodi'r dull a gymerwyd eleni i ddrafftio'r Cynllun Cyflawni Blynyddol a nodi'r berthynas â Chynlluniau Gwasanaeth Blynyddol.
- (4) Cyfeirio'r adroddiad i bob Pwyllgor Craffu'n rhan o'r rhaglen ymgynghori, gan ofyn am unrhyw sylwadau i'w rhannu â'r Pennaeth Polisi a Thrawsnewid Busnes i lywio diwygiadau i'r Cynllun Cyflawni Blynyddol.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) I sicrhau y gellir ymgynghori ar y Cynllun Cyflawni Blynyddol drafft.
- (2) I sicrhau bod ymgynghori effeithiol yn digwydd o fewn yr amserlenni angenrheidiol ar gyfer cyhoeddi'r Cynllun Cyflawni Blynyddol.
- (3) I sicrhau bod y Cabinet yn ymwybodol o sut y datblygwyd y Cynllun Cyflawni Blynyddol a sut y bydd yn cynnig y fframwaith ar gyfer Cynlluniau Gwasanaeth Blynyddol.
- (4) I sicrhau bod yr holl Bwyllgorau Craffu yn cael cyfle i ystyried y Cynllun Cyflawni Blynyddol drafft ac i roi adborth yn rhan o'r rhaglen ymgynghori.

C743 CH2 ADRODDIAD ABSENOLDEB SALWCH 2021/2022 (AG/BA) (CRAFFU – PERFFORMIAD CORFFORAETHOL AC ADNODDAU) –

Diben yr adroddiad oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am yr ystadegau absenoldeb salwch am y 6 mis rhwng 1 Ebrill 2021 a 30 Medi 2021.

No.

Nododd yr adroddiad y ffigurau absenoldeb salwch ar gyfer y 6 mis rhwng 1 Ebrill 2021 a 30 Medi 2021 yn rhan o'r trefniadau rheoli perfformiad y cytunwyd arnynt. Mae lefelau absenoldeb wedi dychwelyd i lefelau tebyg i 2019/2020 (cyn Covid-19). Yn ystod y flwyddyn flaenorol (2020/2021) cafwyd lefelau isel o absenoldeb. Mae absenoldeb wedi cynyddu yn 2021/2022 o'i gymharu â 2020/2021.

Dangosodd y cyfraddau absenoldeb a nodwyd yn yr adroddiad gynnydd o 3.40 diwrnod a gollwyd fesul CALI (mis Ebrill 2020 i fis Medi 2020) i 4.95 a gollwyd fesul CALI (mis Ebrill 2021 i fis Medi 2021). Y ffigur targed blynyddol (mis Ebrill 2021 i fis Medi 2021) oedd 4.15 diwrnod a gollwyd fesul CALI.

Dywedodd yr Arweinydd fod yr adroddiad yn ddiweddariad clir a phlaen a ddangosodd fod y rhan fwyaf o adrannau (ac eithrio Dysgu a Sgiliau) wedi gwella o ran lefel yr absenoldebau; fodd bynnag, disgwyliwyd hyn oherwydd, er enghraifft, y mesur gweithio gartref yn y flwyddyn flaenorol a allai fod wedi cuddio lefelau salwch oherwydd roedd pobl yn parhau i weithio gartref hyd yn oed pan oeddent yn sâl. Roedd absenoldebau byrdymor a thymor hwy yn cyfrif am 20% ac 80% o lefelau salwch cyffredinol yn y drefn honno.

Roedd y prif resymau dros golli diwrnodau gwaith yn cynnwys straen nad oedd yn gysylltiedig â gwaith a phroblemau cyhyrsgerberbydol, y teimlai'r Arweinydd y gallai'r pwysau a roddwyd ar bobl oherwydd y pandemig a'r cyfnod clo a'r gwaith a wnaed gan rai staff rheng flaen yn y drefn honno fod yn gyfrifol amdanynt.

Roedd mesurau ar waith i helpu i ddelio â'r uchod, fel y Rhaglen Cymorth Cyflogaeth, hyfforddiant i weithwyr, hybu iechyd, y system trefnu lechyd Galwedigaethol newydd, y pecyn lles estynedig a 40 o 'hyrwyddwyr' iechyd meddwl hyfforddedig i staff droi atynt am gymorth ac arweiniad.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth fod staff o fewn ei bortffolio ac yn wir o fewn y Cyngor ehangach, yn aml yn profi gwaith straenus, naill ai'n feddylol neu'n gorfforol, heb lawer o amser i wella ac wrth jyglo pwysau nad ydynt yn gysylltiedig â gwaith, a allai effeithio ar eu hiechyd. Gallai gweithio gartref hefyd arwain at lai o ryngweithio ac allgau cymdeithasol, gan effeithio ar les staff.

Ychwanegodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cyfreithiol, Rheoleiddio a Chynllunio y byddai'r mesurau i helpu i fynd i'r afael â salwch ac absenoldebau yn cymryd amser i ddod i rym. Parhaodd y staff i gynhyrchu a pherfformio'n dda er gwaethaf y pwysau arnynt oherwydd y pandemig.

Pwysleisiodd yr Arweinydd unwaith eto y pwysau uniongyrchol ac anuniongyrchol ar staff oherwydd y pandemig, a'r angen i ofalu amdanynt, y ceisiodd y mesurau uchod a weithredwyd gan y Cyngor eu gwneud.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) Nodi'r adroddiad a'r ffigurau absenoldeb salwch chwe mis (mis Ebrill 2021 i fis Medi 2021) yn Atodiad A.

(2) Cyfeirio'r adroddiad at y Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau i'w ystyried, gydag unrhyw sylwadau'n cael eu cyfeirio'n ôl i'r Cabinet i'w hystyried ymhellach.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) I ddwyn materion i sylw'r Aelodau yn unol ag amcanion corfforaethol.

(2) I alluogi'r Pwyllgor Craffu i barhau i ganolbwyntio ar reoli absenoldeb salwch ym mhob un o wasanaethau'r Cyngor ac i wneud argymhellion i'r Cabinet, fel y bo'n briodol.

C744 GWAREDU PARSEL BACH O DIR PERCHNOGAETH TAI YN BARRY ROAD, Y BARRI (DGA) (CRAFFU – TAI A CHYMUNEDAU DIOGEL) –

Diben yr adroddiad, a gyflwynwyd gan yr Aelod Cabinet dros Dai a Gwasanaethau Adeiladau, oedd ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i waredu parcel bach o dir tai anweithredol sy'n addas i'r tŷ annedd cyfagos yn unig ei ddefnyddio'n achlysurol fel y nodir yn Atodiad A yr adroddiad.

Mae'r Cyngor yn berchen ar wahanol barseli bach o dir, sy'n ffinio ag eiddo preifat nad ydynt yn addas i'w datblygu ond sy'n faich ariannol parhaus ar y Cyngor oherwydd costau eu cynnal a'u cadw a'u diogelu'n barhaus.

Roedd y Cyngor wedi derbyn ymholiad i gaffael un o'r lleiniau bach hyn o dir a gynhaliwyd at ddibenion Rhan II o Ddeddf Tai 1985 ac a reolwyd ar hyn o bryd gan yr Adran Dai neu a oedd dan reolaeth yr Adran Dai.

Gallai'r Cyngor waredu tir o'r fath os nad oedd ei angen mwyach at ei ddiben gweithredol, roedd wedi'i ddatgan yn warged i ofynion y Cyngor ac roedd y gwarediad yn unol â'r Caniatâd Cyffredinol i Waredu Tai a Thir 1994 gan y byddai'n cael ei ddefnyddio fel gofod gardd ychwanegol neu le parcio i brynwyr. Felly, ceisiwyd caniatâd i waredu'r tir tai anweithredol hwn a nodwyd yn Atodiad A.

Roedd y tir dan sylw yn rhan o fan agored/tir amwynder. Felly, ceisiwyd caniatâd hefyd i hysbysebu gwaredu rhan o'r tir hwnnw fel colli man agored.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD -

- (1) Datgan y parcel o dir Tai a ddangosir yn Atodiad A yn warged i ofynion y Cyngor.
- (2) Rhoi awdurdod i'r Pennaeth Tai a Gwasanaethau Adeiladu i waredu'r tir a ddangosir ar y cynllun yn Atodiad A dan 32-34 o Ddeddf Tai 1985 yn amodol ar gydymffurfio â'r darpariaethau deddfwriaethol perthnasol, unrhyw gydsyniadau statudol sydd eu hangen a Phenderfyniadau (3) – (5) isod.
- (3) Dirprwyo awdurdod i'r Swyddog Monitro / Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraidaidd i hysbysebu'r bwriad i waredu'r tir a ddangosir ar y cynllun yn Atodiad A yn unol ag a123(2A) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.
- (4) Adrodd unrhyw wrthwynebiadau a geir o ganlyniad i'r broses hysbysebu y cyfeirir ati ym Mhenderfyniad (3) yn ôl i'r Cabinet i'w hystyried.
- (5) Dirprwyo awdurdod, yn amodol ar dderbyn unrhyw wrthwynebiadau fel y cyfeirir atynt ym Mhenderfyniad (4) uchod, i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a'r Gwasanaethau Tai, ac mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Dai a Gwasanaethau Adeiladau, a'r Pennaeth Cyllid / Rheolwr Gweithredol y Gwasanaethau Ariannol i gytuno ar y telerau ac amodau priodol ar gyfer gwaredu'r parcel o dir.
- (6) Bod y Cyngor yn dibynnu ar Gydsyniad E y Cydsyniadau Cyffredinol ar gyfer Gwaredu Tai a Thir 1994 a wnaed dan Ddeddf Tai 1985 ar gyfer y gwarediad er mwyn cydymffurfio â'r darpariaethau deddfwriaethol perthnasol ac unrhyw gydsyniadau statudol angenrheidiol.
- (7) Awdurdodi'r Swyddog Monitro/Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraidaidd i baratoi, cwblhau a gweithredu'r dogfennau cyfreithiol gofynnol i ffurfioli unrhyw warediad yn amodol ar Benderfyniadau (3) – (5) uchod.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) I gydymffurfio â Chyfansoddiad y Cyngor.
- (2) I sicrhau cydymffurfiaeth â'r darpariaethau deddfwriaethol perthnasol, unrhyw gydsyniadau statudol angenrheidiol a Phenderfyniadau (3) – (5) uchod.
- (3) I sicrhau cydymffurfiaeth ag Adran 123 (2A) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, mae'r tir yn rhan o fan agored.
- (4) Er mwyn i'r Cabinet ystyried unrhyw wrthwynebiadau a dderbyniwyd ac i gydymffurfio â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 1972.
- (5) I waredu'r tir ar sail telerau ac amodau addas.

No.

(6) I sicrhau cydymffurfiaeth â'r darpariaethau deddfwriaethol perthnasol ac unrhyw gydsyniadau statudol angenrheidiol.

(7) I ffurfioli gwaredu'r tir yn gyfreithiol ac i sicrhau cydymffurfiaeth â statud ac yn amodol ar Benderfyniadau (3) – (5) uchod

C745 CYNLLUN GWELLA AMGYLCHEDDOL YSTÂD BUTTRILLS 2021-22 (DGA) (CRAFFU – TAI A CHYMUNEDAU DIOGEL) –

Ceisiodd yr adroddiad, a gyflwynwyd gan yr Aelod Cabinet dros Dai a Gwasanaethau Adeiladau, roi gwybod i'r Cabinet am y broses dendro ar gyfer amrywiaeth o waith gwella amgylcheddol ar Ystâd Buttrills, gan gynnwys gwelliannau i erddi tai, byngalos a fflatiau, sy'n cynnwys creu gerddi cymunedol preifat ac agored, mannau sychu newydd a storfeydd allanol.

Gofynnwyd i'r Cabinet dderbyn y cais tendr mwyaf manteisiol ac awdurdodi gweithredu'r contract ar gyfer cyflawni Cynllun Gwella Amgylcheddol Ystâd Buttrills 2021-22, drwy adroddiad Rhan II yn ddiweddarach ar yr agenda hon

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD – Nodi cynnwys yr adroddiad, gyda'r bwriad o wneud penderfyniadau ar ddyfarnu'r contract a nodwyd yn adroddiad Rhan II yn ddiweddarach ar yr agenda.

Y rheswm dros y penderfyniad

(1) I roi gwybod am y sefyllfa bresennol gyda'r contract gwella cymdogaeth / amgylcheddol penodol hwn.

C746 ADRODDIAD CANOL TYMOR DIOGELU CORFFORAETHOL (OCI) (CRAFFU – I GYD) –

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac lechyd yr adroddiad, a roddodd grynodedb o'r gweithgarwch a wnaed mewn perthynas â threfniadau Corfforaethol ar gyfer Diogelu ar draws y Cyngor a sicrwydd ynghylch gweithgarwch diogelu sy'n digwydd ar draws y Cyngor.

Roedd cyfrifoldeb Corfforaethol i sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer diogelu plant ac oedolion yr oedd angen gwasanaethau penodol y Cyngor arnynt. Rhoddodd yr adroddiad ddiweddariad canol blwyddyn ar effeithiolrwydd y trefniadau hynny a'r datblygiadau hyd yma. Sicrhaodd y Grŵp Diogelu Corfforaethol (GDC) fod trefniadau diogelu corfforaethol yn cael eu craffu a'u sicrhau.

No.

Roedd y GDC wedi cynnal cyfarfodydd rheolaidd ers mis Ebrill 2021 a rhannodd cynrychiolwyr feysydd blaenoriaeth a themâu sy'n dod i'r amlwg.

Roedd angen nodi'r gefnogaeth sylweddol a roddodd y Cyngor i ysgolion lleol ynghylch diogelu a'r ffaith bod holl weithwyr y Cyngor, gwirfoddolwyr gan gynnwys llywodraethwyr ysgol, aelodau etholedig, contractwyr a phartneriaid yn y Fro yn cael eu hysbysu drwy sefydlu a hyfforddi am eu cyfrifoldeb i gydymffurfio â'r Polisi Diogelu.

Cytunwyd hefyd y dylid gwneud argymhelliad ychwanegol i ddiolch i'r GDC a'r swyddogion cysylltiedig am y gwaith yr oeddent yn parhau i'w wneud i ddiogelu plant ac oedolion.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD -

- (1) Ystyried a nodi'r gwaith sydd wedi'i wneud i wella trefniadau corfforaethol ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant ac oedolion.
- (2) BOD y Cabinet yn parhau i dderbyn adroddiadau bob chwe mis ar waith sy'n cael ei wneud i wella trefniadau Diogelu Corfforaethol a'i effeithiolrwydd.
- (3) Cyfeirio'r adroddiad at bob Pwyllgor Craffu i'w ystyried.
- (4) Diolch i'r GDC a'r swyddogion cysylltiedig am y gwaith y maent yn parhau i'w wneud i ddiogelu plant ac oedolion.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) I sicrhau bod y Cabinet yn ymwybodol o ddatblygiadau diweddar mewn trefniadau corfforaethol ar gyfer diogelu.
- (2) I alluogi'r Cabinet i oruchwylio'r maes allweddol hwn o weithio corfforaethol yn effeithiol.
- (3) I sicrhau bod yr Aelodau'n cael eu goruchwylio'n helaeth o ran y maes pwysig hwn.
- (4) I gydnabod y gwaith a wneir gan y GDC a'r swyddogion cysylltiedig o ran diogelu plant ac oedolion.

C747 PENODIADAU I'R CORFF ALLANOL (OCI) (CRAFFU – PERFFORMIAD CORFFORAETHOL AC ADNODDAU) –

Diben yr adroddiad, fel y'i cyflwynwyd gan yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd, oedd ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i roi pwerau

No.

dirprwyedig i Reolwr Gweithredol y Gwasanaethau Democrataidd ar y cyd ag Arweinydd y Cyngor i nodi ac enwebu tri Aelod newydd i gymryd lle'r Cynghorwyr C.A. Cave, R. Nugent-Finn ac L.O. Rowlands i gynrychioli'r Cyngor ar Gyngor Iechyd Cymuned (CIC) Caerdydd a'r Fro tan yr Etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2022.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd fod rolau o'r fath hefyd yn agored i gynrychiolwyr o fforymau neu grwpiau cymunedol eraill, nid dim ond Cynghorwyr

Bro Morgannwg. Gyda phwysigrwydd cynyddol Cynghorau Iechyd Cymuned, roedd yn bwysig bod darpar aelodau'n gallu cael yr amser angenrheidiol er mwyn cyflawni eu rolau'n effeithiol, er y nodwyd bod llawer o bobl yn wynebu rhwystrau amser sylweddol a dylid ystyried unrhyw beth y gellid ei wneud i liniaru hyn.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) Rhoi pwerau dirprwyedig i Reolwr Gweithredol, y Gwasanaethau Democrataidd, ar y cyd ag Arweinydd y Cyngor, i nodi ac enwebu tri Aelod newydd i gynrychioli'r Cyngor ar CIC Caerdydd a'r Fro.

(2) Ystyried, lle bo'n gyfreithiol bosibl, bresenoldeb mewn cyfarfodydd sefydliadau y mae Aelod wedi'i enwebu neu ei benodi iddo gan y Cyngor yn ddyletswydd gymeradwy y mae lwfansau teithio a chynhaliaeth yn daladwy ar ei chyfer, yn unol â chynllun y Cyngor.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1 a 2) I sicrhau parhad cynrychiolaeth gan y Cyngor ar CIC Caerdydd a'r Fro.

C748 GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD –

PENDERFYNWYD – O dan Adran 100A (4) o'r Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol ar y sail ei bod yn debygol o gynnwys datgeliad o wybodaeth eithriadig fel y'i diffinnir yn Rhan 4 o'r Atodlen 12A (fel y'i diwygiwyd) o'r Ddeddf, y cyfeirir at baragraffau perthnasol yr Atodlen mewn cromfachau ar ôl y pennawd munud.

C749 CYNLLUN GWELLA AMGYLCHEDDOL YSTÂD BUTTRILLS 2021-22 (DGA) (GWYBODAETH EITHRIADOL – PARAGRAFFAU 12 A 13) (CRAFFU - TAI A CHYMUNEDAU DIOGEL) –

Tynnodd yr adroddiad sylw'r Cabinet at y bwriad i ddyfarnu Cynllun Gwella Amgylcheddol Ystâd Buttrills 2021-22.

No.

Ceisiodd yr adroddiad awdurdod dirprwyedig i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Gwasanaethau Tai, ar y cyd â'r Aelod Cabinet dros Dai a Gwasanaethau Adeiladau, dderbyn y cais tendr mwyaf manteisiol a gweithredu contract Gwaith Canolradd JCT 2016 gyda Gerald Davies Ltd.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD –

- (1) Cymeradwyo dyfarnu'r contract i Gerald Davies Ltd.
- (2) Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Swyddog Monitro / Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, i baratoi a gweithredu contract canolradd JCT 2016 gyda Gerald Davies Ltd.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) I gydymffurfio â Rheolau Sefydlog Contract y Cyngor, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gontractau sydd â gwerth dros £300k gael eu cytuno gan y Cabinet.
- (2) I alluogi cwblhau dogfennau'r contract gyda'r contractwr llwyddiannus.